

**Nadolig
Llawen!**



Urdd

CYMRU SY'N
GWNEUD EU
MARC

**HUW
STEPHENS**



**Coginio
gyda Zoe**



**Taith Yr Urdd i
Batagonia 2019**

helo!

Mis Rhagfyr

Mae disgyblion blwyddyn 8 Ysgol Maelor wedi ysgrifennu cwestiynau i ofyn i griw o bobl ifanc aeth i Batagonia mis Tachwedd 2019.



Annwyl IAW

Jessica Tranter ydw i. Dw i'n un deg tri a dwi'n byw ym Mwlchgwyn (pentref uchaf yng Nghymru). Dw i'n caru Bwlchgwyn achos mae'n ogoneddus.

Hoffwn i fynd i Batagonia achos mae pobl yn siarad Cymraeg yno ac mae'n wych.

Mae gen i gwestiwn i chi:

Beth fwynehaist ti fwyaf ym Mhatagonia?

Hwyl!

Annwyl IAW,

Charlie Crump ydw i. Dw i'n un deg dau oed a dwi'n byw yn Wrecsam. Dw i'n gallu chwarae pêl-fasged yn dda iawn.

Hoffwn i fynd i Batagonia- mae'n edrych yn ardderchog! Mae'n cwl bod pobl yn siarad Cymraeg ochr arall y byd. Mae Patagonia yn fythgofiadwy. Mae gen i gwestiynau:

- Pam aethoch chi yno?
 - Oedd y bwyd yn fodern a blasus neu'n afiach?
 - Oedd rhaid i ti godi'n gynnar?
- Hwyl!

Annwyl IAW

Megan Gurr ydw i. Dw i'n un deg dau oed a dw i'n byw yn Wrecsam. Hoffwn i deithio efo fy nheulu i Batagonia. Hoffwn i fynd achos mae Patagonia yn edrych yn grêt a diddorol.

Mae gen i gwestiynau:

- Wnest ti siarad Saesneg ym Mhatagonia hefyd?

Hwyl fawr!

Annwyl IAW

Jess Jones ydw i a dw i'n un deg dau oed. Dw i'n byw ym Marchwiel a dw i'n mwynhau chwarae gemau. Mae Patagonia yn ddiddorol iawn ac mae'n cwl bod pobl Cymraeg ym Mhatagonia! Mae gen i gwestiynau i chi:

- Am faint est ti i Batagonia ac efo pwy wnest ti fynd?
- Beth oedd dy hoff ddydd a pam?

Diolch o galon.

Hwyl fawr!

© Hawlfraint Urdd Gobaith Cymru yw'r holl gylchgrawn oni nodir yn wahanol. Cyhoeddwyd gan Urdd Gobaith Cymru ac argraffwyd gan Y Lolfa. Golygydd: Sioned Roberts. Dylunydd: Meilyr Gwynn. Cydnabyddir cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r cylchgrawn hwn.

Annwyl IAW,
Martin McCabe ydw i. Dw i'n un deg tri oed a dw i'n byw yn Wrecsam. Dw i'n mwynhau chwarae gitâr achos mae chwarae gitâr yn ymlaciol. Mae'n edrych yn anhygoel ym Mhatagonia. Mae'n cwl bod pobl yn siarad Cymraeg ochr arall y byd. Mae gen i gwestiwn: Chwaraeaist ti golff yn y Patagonia? Dw i'n caru golff!

Hwyl fawr!

Annwyl IAW,
Evie ydw i. Dw i'n un deg dau oed a dw i'n byw ym Mangor-is-y-coed. Dw i'n mwynhau chwarae hoci. Mae'n cwl bod pobl yn siarad Cymraeg a hoffwn i fynd i Batagonia.

- Oes gen ti hoff fwyd Archentaidd?
- Oedd llawer o siaradwyr Cymraeg yno?

Hwyl fawr!

Annwyl IAW,
Helo, Kirsty Hoskisson-Craven ydw i. Dw i'n un deg dau oed, dw i'n hoffi chwarae saethyddiaeth a gwylio rygbi achos mae'n cwl a difyr. Dw i'n byw yn Ellesmere yn Lloegr a dw i'n mwynhau dysgu'r iaith Gymraeg. Dw i ddim wedi bod i Batagonia ond hoffwn i fynd yno. Clywais i ei bod hi'n hardd yno. Rydych chi mor lwcus! Beth fyddwch chi'n cofio fwyaf am Batagonia? Basech chi'n argymhell hi?

Hwyl fawr!

Annwyl IAW
Tomos ydw i a dw i'n un deg tri oed. Dw i'n byw yn Rhiwabon. Dw i'n mynd i Ysgol Maelor ac mae'n ysgol wych. Dw i'n mwyn-hau chwarae pêl-droed a gemau fideo.

Mae Patagonia yn edrych yn anhygoel a cwl efo tywydd anghredadwy. Mae'n cwl bod pobl yn siarad Cymraeg ochr arall y byd. Mae Patagonia yn fendigedig. Hoffwn i fynd i Batagonia. Hoffwn ofyn rhai cwestiynau i ti am dy brofiad ym Mhatagonia.

- Sut oedd y tywydd ym Mhatagonia?
- Wnest ti siarad llawer o Gymraeg?

Hwyl!

Annwyl IAW,
Anwen Bancroft ydw i. Dw i'n un deg dau oed a dw i'n byw ym Mhen-y-Lan. Dw i'n mynd i Ysgol Maelor ym Mhenley. Dw i'n mwynhau canu'r piano a'r sielo. Hoffwn i fynd i Batagonia. Mae'n cwl bod pobl yn siarad Cymraeg ochr arall y byd. Am faint wnest ti deithio i gyrraedd Patagonia? Wnest ti fwynhau'r bwyd ym Mhatagonia?

Hwyl fawr!

Annwyl IAW
Megan Edwards ydw i, rydw i'n un deg dau oed a dw i'n byw yn Penley. Dw i'n mwynhau chwarae pêl-rwyd. Hoffwn i fynd i Batagonia achos mae'n edrych yn anhygoel a phrydferth.

- Beth oedd i wneud yno?

Hwyl fawr!



Gweithlen

Wynne Evans

Mae **pawb** yn adnabod Wynne Evans.
Pam?

Wel, **yn gyntaf**, tenor enwog ydy o.

Ewch ar  i glywed Wynne yn canu:


*Nessun Dorma,
Hen Wlad Fy Nhadau
Time to Say Goodbye a llawer mwy.*

Yn ail, Wynne Evans ydy *Go Compario* yn yr hysbyseb *Go Compare* ar y teledu.

Yn drydydd, fo sy'n cyflwyno'r rhaglen radio 'great company, big laughs, big names' ar BBC Radio Wales.

Ydych chi eisiau gwybod mwy am Wynne Evans?
Oes? Dyma eich cyfle (opportunity). Mae **Elin Meek** yn cyfweid â Wynne Evans yn y llyfr yma.
Yn y cyfweid (interview) mae o'n rhoi ei hanes yn onest.

Dyma'r broliant ar gefn y llyfr:



CAA Cymru Aberystwyth sy' wedi cyhoeddi'r llyfr sy'n y gyfres **AMDANI** ac mae'n costio £4.99.

www.aber.ac.uk/caa

Diolch yn fawr i CAA am y caniatâd i ddefnyddio rhan o'r llyfr.

Beth am y cyfwelydd (interviewer)?




DARLLENWCH am Elin Meek ac yna atebwch y cwestiynau yn **TASG 1**.

Cafodd Elin Meek **ei magu** yng Nghaerfyrddin ond mae hi'n byw yn Abertawe nawr.

Mae hi'n gweithio'n llawrydd (freelance) ers 2001 fel cyfieithydd (translator). Cyn hynny roedd hi'n athrawes Almaeneg ac yn ddarlithydd (lecturer) Cymraeg.

Mae hi wedi ysgrifennu nofel i ddysgwyr o'r enw *Budapest*.

ac wedi addasu llawer o lyfrau i blant gan gynnwys *Horrid Henry* a llyfrau Roald Dahl.



TASG 1:

- (i) Ydy Elin Meek yn byw yn Abertawe erbyn hyn?
 YDY NAC YDY
- (ii) Ydy hi'n athrawes Almaeneg nawr?
 YDY NAC YDY
- (iii) Beth ydy enw'r nofel i ddysgwyr gan Elin Meek?
- (iv) Pa lyfrau mae hi wedi addasu i blant?
- (v) Ddarllenoed chi nofel gan Roald Dahl pan roeddech chi'n ifanc?
 DO NADDO
- (vi) Ydych chi'n gallu enwi un o lyfrau Roald Dahl?

YSGRIFENNWCH 4 brawddeg yn dweud:

- pa fath o lyfrau rydych chi'n mwynhau darllen
- pa fath o lyfrau fyddwch chi byth (don't ever) yn darllen
- ble fyddwch chi'n hoffi darllen a phryd
- pa lyfr rydych chi'n darllen ar y funud neu pa lyfr ddarllenoed chi yn ddiweddar (recently)

TASG 2:

DARLLENWCH Ffeil-o-ffaith Wynne Evans isod ac yna defnyddiwch y ffeithiau i ysgrifennu paragraff yn cyflwyno Wynne fel siaradwr gwadd (guest speaker) yn Noson wobrwyo Blwyddyn 11 yn yr ysgol.

Ffeil-o-ffaith

Wynne Evans

- Geni:** Caerfyrddin
Dyddiad geni: 27 Ionawr 1972
Brawd/Chwaer: 2 frawd, dim chwaer
Arwydd y Sêr: Acwariws
Gwaith: canwr opera, cyflwynydd ar *Radio Wales*
Yn enwog: Am yr hysbyseb *Go Compare*
Addysg: Ysgol Gynradd Pentrepoeth
Ysgol Uwchradd Cambria, Caerfyrddin
Guildhall School of Music and Drama, Llundain
Teulu: Dau o blant - Ismay a Taliesin
Siarad Cymraeg? Ydy

Patrymau iaith i'ch helpu:

Cafodd ei eni ... Mae o'n cael ei ...
... ydy o/e Astudiodd e yn ...

Mae gan Wynne /ganddo fo/ganddo fe

Aeth e/o i'r ...



pump



TASG 3:

Pump o hoff bethau Wynne Evans

DARLLENWCH am rai o hoff bethau Wynne Evans ac yna atebwch y cwestiynau / cwblhewch (complete) y tasgau sy'n dilyn.



HOFF ALBWM/CD?

Mario Lanza eto – wrth gwrs. Pan roeddwn i'n ifanc roedd dwy record yn y tŷ – Christmas with Mario Lanza a The Student Prince. Dw i'n dal i wrando arnyn nhw o bryd i'w gilydd. (now and again)

HOFF GANWR?

Fy hoff ganwr ydy Mario Lanza. Hefyd dw i wrth fy modd gyda'r gantores Montserrat Caballé, soprano operatig o Sbaen. Canodd hi'r gân *Barcelona* gyda Freddie Mercury.



HOFF GAR?

Dw i wrth fy modd gyda cheir. Dw i'n hoff iawn o Alfa Romeo ond mae'n well gen i Mercedes. Mae gen i Mercedes Sport.



HOFF LE I FYND AR WYLIAU?

Roeddwn i yn Cape Town, De Affrica yn ddiweddar. Yn fy marn i, mae'n le gwych – i weithio neu i fynd ar wyliau.

HOFF FWYD?

Bwyd Eidalaidd i mi bob tro. Pasta ... caws mozzarella. Blasus iawn!



Teithiais i Fietnam gyda fy mab. Roedd y bwyd yn anhygoel yno hefyd.

(i) Ewch ar YouTube i wrando ar Freddie Mercury a Montserrat Caballé yn canu *Barcelona*. Yna atebwch y cwestiwn:

Beth ydy eich barn chi am y gân? Pam?

(ii) Mae Wynne Evans yn hoff iawn o Alfa Romeo ond mae'n well ganddo fe Mercedes.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda Wynne? Pam?

(iii) Yn ôl Wynne (according to), mae'r bwyd yn Vietnam yn anhygoel.

Ewch ar y wê i weld pa fath o fwyd maen nhw bwyta yn Vietnam.

Hoffech chi fynd i Vietnam i flasau'r bwyd, ydych chi'n meddwl? Pam?

(iv) Mae Wynne wedi bod yn Cape Town yn ddiweddar.

Mae llawer o draethau hyfryd yn Cape Town.

Ble fyddwch chi'n hoffi mynd i lan y môr? Beth fyddwch chi'n hoffi wneud ar lan y môr?

(v) Mae Wynne yn dal i wrando ar *Christmas with Mario Lanza* a *The Student Prince* o bryd i'w gilydd.

Fyddwch chi'n mwynhau gwrando ar hen CDs o bryd i'w gilydd? Pa rai? Pam?

Ewch ar YouTube i wrando ar rhai o ganeuon *The Student Prince*.

Ydych chi'n hoffi nhw? Pa rai? Pam?

(vi) Atebwch y 5 cwestiwn: Hoff ganwr, hoff gar, hoff fwyd, hoff le i fynd ar wyliau a hoff albwm/CD?





TASG 4:

Wynne Evans ydy *Go Compario* yn yr **hysbyseb** *Go Compare* ar y teledu. Mae rhai pobl yn mwynhau gwyllo'r hysbysebion ond mae eraill (others) yn casau hysbysebion ar ganol eu hoff rhaglen.

YSGRIFENNWCH 6 - 8 brawddeg yn mynegi eich barn chi am hysbysebion.

Beth am gynnwys (include) y pwyntiau canlynol:

- Ydych chi'n hoffi hysbysebion weithiau/ bob amser/byth?
- Pa hysbysebion ydych chi'n hoffi / ddim yn hoffi?
- Ydych chi'n mwynhau'r hysbyseb *Go Compare*?
- Ydych chi'n hoff o hysbysebion doniol/ gwyliau/ffasiwn?
- Ydy rhai hysbysebion yn bwysig e.e. ymchwil canser?
- Ydyn nhw rhy hir weithiau?
- Ydych chi wedi prynu unrhywbeth ar ôl gweld yr hysbyseb?
- Fyddwch chi'n cael paned o de neu goffi yn ystod yr hysbysebion?

COFIWCH gefnogi eich barn (dweud pam).



Blog Ddyddiadur
Marged Selway-Jones

Taith Yr Urdd i Batagonia 2019

Dyma fi yn ôl o Batagonia wedi **taith brysur** yn llawn **profiadau** gyda chriw o bobl ifanc arbennig o bob cwr o Gymru.

Diolch i'r Urdd am roi cyfleoedd fel hyn i bobl ifanc fel fi, yn enwedig Marged Gwenllian a Steffan Prys, dau o weithwyr yr Urdd, am ofalu amdanom drwy gydol y daith.

Dydd Mercher Hydref 23ain - I ffwrdd â ni!

Wedi ffarwelio gyda'n rhieni, teithion ni yn y bws mini i lawr i wasanaethau Leigh Delamere a mynd ar fws mawr a chyfarfod criw y de. Ymlaen wedyn i faes awyr Gatwick a hedfan oddi yno i Buenos Aires. Roeddem ni wedi cyrraedd ar ddydd Iau yn Buenos Aires, ac yna roedd rhaid mynd yn syth i ddal awyren arall am Trelew. Cyrhaeddod ni Trelew erbyn y nos a chael llety a swper ym Maes Rhyddid. Roedd pawb yn falch iawn o gael mynd i'r gwely wedi'r holl deithio!

Dydd Gwener - Hydref 25ain - Ymweld â Choleg Camwy.

Mynd i Goleg Camwy yn Y Gaiman er mwyn treulio diwrnod gyda'r myfyrwyr. Cafon ni

amser gwych yno yn dawnsio gwerin a chwarae gemau a gwneud ffrindiau newydd. Roedd cyngerdd wedyn gyda'r nos yn yr Hen Gop, Dolavon cyn mynd yn ôl i Faes Rhyddid.

Dydd Sadwrn Hydref 26ain a Dydd Sul Hydref 27ain - Ymweld â Phorth Madryn

Rhaid pacio bag bach er mwyn treulio dwy noson ym Mhorth Madryn. Aethom ni i ymweld â chymuned Gymraeg Porth Madryn cyn swper gyda'r bobl leol ac yna cynnal cyngerdd i'r gymdeithas. Roedd pawb wedi ein canmol yn fawr. Yn yn ystod yr ail ddiwrnod aethom ni ymweld ag atyniadau enwog Porth Madryn fel y traeth y glaniodd y Mimosa arno, a'r ogofau a fu'n gartref cyntaf i'r Cymry.



Nodyn Iaith!

Amser y gorfennol/ Past tense

Aros (berfenw/verb) + ni (us) = Aros(on) ni
We stayed

Teithio (berfenw/verb) + ni = Teithi(on) ni
We travelled



Dydd Llun Hydref 28ain - Taith i Punta Tombo.

Gyda disgyblion Ysgol yr Hendre, aethom i warchodfa gyfandirol fwyaf'r byd, sef Punto Tombo. Profiad a hanner oedd gweld miloedd o bengwiniad yn 'wadlan' heibio - roeddent yn amlwg wedi hen arfer gydag ymwelwyr! Ymweld â Threlew wedyn cyn cynnal cyngerdd ar y cyd gyda Chymdeithas Gymraeg Trelew.

Dydd Mawrth Hydref 29ain - Ymweld ag Ysgol Yr Hendre ac Ysgol Feithrin y Gaiman.

Amser bendigedig a chroeso arbennig gan y disgyblion yn y ddwy ysgol. Roedd e'n fendigedig eu clywed yn siarad ac yn canu yn Gymraeg. Roeddem wedi chwarae pob math o gemau. Yn y nos roedd angen pacio a theithio dros nos i'r Andes, cyrraedd Esquel ac ymlaen i Drefelin.

Dydd Mercher Hydref 30ain - Cyrraedd Esquel

Aros yn Nhrefelin heno yn yr Andes, mewn Cabañas pren. Roedd y tywydd yn boeth ond roedd eira ar gopa pob mynydd. Taith i'r parc cenedlaethol yn y prynhawn a chwarae pêl droed gyda phobl ifanc Trefelin.

Dydd Iau Hydref 31ain a Dydd Gwener Tachwedd y 1af - Ymweld â Threfelin

Heddiw aethom i Ysgol y Cwm yn Nhrefelin a gwneud sesiynau dawnsio, canu a chwarae gemau gyda'r disgyblion. Cyngerdd arall yn y nos i Gymdeithas Gymraeg Trefelin a mwy o ddawnsio gwerin! Y bore wedyn, dal bws i Esquel ac ymweld â'r capel Cymraeg. Roedd llun nain yn un o'r llyfrau! Cyngerdd arall i Gymdeithas Gymraeg Esquel cyn mynd yn ôl i Drefelin.

Dydd Sadwrn Tachwedd yr 2ail - Rafftio!

Diwrnod llawn antur heddiw; rafftio i lawr afon ym Mharc Cenedlaethol brydferth y Corcovado ac yna gwahoddiad i fwyta Asado ar fferm Margarita a Charlie Green. Roedd yn flasus iawn!

Dydd Sul Tachwedd y 3ydd - ymweld âg Amgueddfa Trefelin.

Roedd yn ddi-ddorol gweld yr hen bethau a darllen am hanes y Cymry ym Mhataragonia. Profiad bythgofiadwy oedd gweld caeau llawn tiwlips lliwgar i gyd mewn rhesi. Asado blasus arall wedyn, cyn diolch am y croeso bendigedig a dweud hwyl fawr wrth Margarita a Charlie Green.

Dydd Llun Tachwedd y 4ydd a Dydd Mawrth Tachwedd y 5ed - Buenos Aires

Rwy'n teimlo'n eithaf trist heddiw. Mae ein hamser ym Mhataragonia bron ar ben. Teithio i'r maes awyr a hedfan i Buenos Aires. Wedi swper blasus yn y gwesty, aethom i weld Sioe Tango- roedd y gwisgoedd lliwgar yn hyfryd a'r dawnsio yn wych! Taith o gwmpas Buenos Aires ar yr ail ddiwrnod cyn mynd i siopa a phrynu ambell anrheg cyn mynd adre.

Dydd Mercher Tachwedd y 6ed a dydd Iau Tachwedd y 7fed - Y daith adre.

Ein diwrnod olaf heddiw, a phacio ar gyfer y daith hir adref. Roedd angen dweud hwyl fawr i bawb ar y daith. Cyrraedd Glan-Ilyn ganol y bore ar y dydd Iau wedi blino'n lân ond wedi cael amser gwych, cael profiadau bythgofiadwy, a gwneud ffrindiau oes!

Geirfa:

taith brysur - busy trip
profiadau - experiences
yn enwedig - especially
(g)weithwyr - workers/staff
gofalu amdonom - to look after us
(g)wasanaethau - Services/Service station
cyfarfod - to meet
maes awyr - airport
yn syth - straight away
dal awyren - catch a plane/flight
llety - accommodation/ place to stay
swper - supper
yn falch iawn - very glad
treulio - to spend
myfyrwyr - students
dawnsio gwerin - folk dancing
ymweld â- to visit
cymuned - community
(l)leol - local
canmol - to praise
atyniadau enwog - famous attractions
glaniodd - landed
ogofau - caves
a fu'n gartref - that had been the home of
Cymry - Welsh people
(g)warchodfa natur gyfandirol mwya'r byd - the world's biggest continental nature reserve
profiad a hanner - an experience and a half
miloedd - thousands
hen arfer - to be used to/familiar with
ymwelwyr - visitors
cynnal - to hold/ organize
ar y cyd - with, jointly
cyngerdd - concert
Cymdeithas - Society
bendigedig - brilliant/ glorious
clywed - to hear
canu - to sing
chwarae - to play
pacio - to pack
t(h)eithio dros nos - travel overnight
aros - to stay
cabañas pren - wooden cabins
eira ar gopa pob mynydd - snow on the top of every mountain.
Parc Cenedlaethol - National Park
capel - chapel
nain - mamgu/ grandmother
llyfrau - books
antur - adventure
rafftio - rafting
gwahoddiad - invitation
f/blasus - tasty
hanes y Cymry - history of the Welsh people
profiad bythgofiadwy - unforgettable experience
caeau - fields
tiwlips lliwgar - colourful tulips
rhesi - rows
croeso - welcome
eithaf trist - quite sad
sioe - show
gwisgoedd lliwgar - colourful costumes
ambell anrheg - a few presents
blino'n lân - exhausted
ffrindiau oes - friends for life

Beth am ateb cwestiynau Ysgol Maelor o dudalen 'Annwyl Iaw' ar ôl darllen blog-dyddiadur (diary blog) Marged?



CogUrdd



Mae enillydd Cogurdd Eisteddfod yr Urdd 2019 wedi creu rysâit yn arbennig ar gyfer y Nadolig. Rydym yn falch o gael sgiliau coginio Zoe i greu ryseitiau gwahanol. Mae Zoe yn mynd i Ysgol y Preseli ac ym mlwyddyn 7.

Ydych chi'n hoffi addurno cacennau? Mae Mr Urdd yn mwynhau bwyta llawer o fwyd blasus yn ystod y Nadolig.

Beth am anfon llun o'ch myffins chi at boreda@urdd.org ?

Cynhwysion

- 300g blawd plaen
- 3 llwy de powdwr pobi
- 1 llwy de sinamon mâl
- 1/2 llwy de sinsir mâl
- 125g siwgr muscovado
- 80g llugaeron sych
- 120g llus ffres
- 75g menyn
- 3 wy
- 150ml llaeth

I addurno

- Eisin gwyn yn barod-i-rholio
- Tiwbiau eisin lliw ysgrifennu
- Jam bricyll

Myffins Nadolig



Dull

1. Mae angen cynhesu y ffwrn i 200°C/nwy 6 a leinio tun myffins 12 twll gyda chasys.
2. Nesaf, mae angen rhoi'r blawd, powdwr pobi, sinamon, sinsir, siwgr, llugaeron a llus i mewn i bowlen a chymysgu.
3. Yna, mae angen toddi'r menyn mewn sosban ar y hob neu yn y microdon am 1 munud ar pŵer llawn.
4. Wedyn, mae angen cymysgu'r menyn wedi'i doddi efo'r wyau a llaeth â fforc.
5. Yna mae angen ychwanegu at y cynhwysion sych a throï nes iddo gymysgu.
6. Rhaid rannu'r cymysgedd rhwng y 12 casys myffins a'u pobi am 15-20 munud hyd iddynt godi a brownio.
7. I addurno, mae angen brwsio ychydig o jam ar ben pob myffin. Yna, mae angen rholio'r eisin gwyn a thorri allan siapiau Nadolig gyda thorwyr a rhoi un ar bob myffin.
8. Yn olaf mae angen addurno pen pob cacen ag eisin lliw ysgrifennu

Geirfa : Cynhwysion

- Addurno** - To decorate
- Cynhwysion** - Ingredients
- Blawd plaen** - Plain flour
- Powdwr pobi** - Baking powder

Sinamon mâl - Ground cinnamon

- Sinsir mâl** - Ground ginger
- Llugaeron sych** - Dried cranberries
- Llus** - Bilberries
- Eisin Gwyn** - Tough icing
- Bricyll** - Apricots

Geirfa : Dull

- Cynhesu** - warm up
- Cymysgu** - to mix
- Toddi** - to melt
- Cymysgedd** - the mix
- Pobi** - to bake
- Torwyr** - cutters

Cymraeg Bob Dydd

Cymraeg
BOB DYDD

Blwyddyn ysgol newydd – Staff newydd, ysgolion newydd ar gynllun Cymraeg Bob Dydd!

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn brysur dros ben i griw Cymraeg Bob Dydd.

Hoffwn **groesawu** Leon Welsby i deulu Cymraeg Bob Dydd, a hoffwn ddiolch i Sion Lewis am ei waith **diflino** ar hyd yr amser.

Gyda 39 Ysgol dros Gymru bellach yn rhan o'r cynllun, mae Elin, Megan a Leon wedi ei **gwasgaru ledled** y wlad!

Roedd yr wythnosau **cychwynnol** yn llawn **cyfarfodydd**, clybiau cinio a pharatoi ar gyfer y flwyddyn i ddod.

ERBYN HYN...

Mae Ameer Davies-Rana wedi bod draw i Ysgol Treddegar i wneud **cyflwyniad** am ei daith gyda'r iaith, flogio, a dangos yr **effaith fanteisiol** mae'r iaith wedi cael ar ei fywyd.

Mae Tudur Phillips wedi bod i Ysgol Caerllion i wneud **gweithdai** clocio gyda'r disgyblion.

Mae Llion Williams (Mewn Cymeriad) wedi bod yn gwneud cyflwyniadau doniol/addysgiadol



am hanes yr iaith Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Dinbych.

Aeth Leon a chriw o ddisgyblion i'r **Cynulliad** ac i Wersyll yr Urdd, Caerdydd.

Ac mae Elin, Megan a Leon wedi bod yn **cynnal** clybiau cinio mewn nifer fawr o ysgolion, yn ogystal â gwneud sesiynau **ymwybyddiaeth** iaith. Roedd Megan yn dangos ei thaith yn dysgu'r Gymraeg ac Elin yn gwneud cyflwyniadau am **bwysigrwydd** y Gymraeg yn ei bywyd hi.

Ymlaen i'r wythnosau nesaf!

5

5 Gair Mis Rhagfyr

- **Nadolig = Christmas**
- **Teulu = Family**
- **Carolau = Carols**
- **Mins Pei = Mince Pie**
- **Gwyliau = Holiday**

GIGS CYMRAEG

Yn wythnosol mae Gigs Cymraeg yn cael eu cynnal ledled Cymru, cadwch lygad allan am rai yn eich ardal chi.

Mae'r **cyfrifon** yma yn **hyrwyddo** gigs Cymraeg ar Twitter:

@hanshs4c @YGigiadur
@Y_Selar @SonAmSinBlog

Geirfa:

- cynllun – plan
- croesawu – introduce
- diflino – dim + blino – untiring / endless
- gwasgaru – spread out
- ledled – throughout
- cychwynnol – initial
- cyfarfodydd – meetings
- cyflwyniad – presentation
- effaith fanteisiol – positive effect
- gweithdai – workshops
- addysgiadol – educational
- Cynulliad – The Assembly
- cynnal – to hold
- ymwybyddiaeth – awareness
- pwysigrwydd – importance
- cadw llygad – keep an eye out
- cyfrifon – accounts
- hyrwyddo – (to) promote

PLAYLIST CYMRAEG BOB DYDD



Cofiwch **gadw llygad** ar restr chwarae 'Cymraeg Bob Dydd' ar Spotify. Mae cerddoriaeth newydd, anhygoel yn cael ei ychwanegu iddo yn wythnosol!



un deg un

IAW

CYMRY SY'N
GWNEUD EU MARC

HUW STEPHENS

HUW MEREDYDD STEPHENS	
Geni:	25 Mai 1981, Caerdydd
Priod â:	Sara Davies (m. 2012)
Plant:	Mab - Cai
Rhaglen:	BBC Music 'Introducing'
Gorsaf:	BBC Radio 1
Amser:	23:00-01:00 Dydd Sul
Rhaglen:	Byd Huw Stephens
Gorsaf:	BBC Radio Cymru
Amser:	19:00-22:00 Dydd Iau

BYWYD PERSONOL

Cyflwynydd ar BBC Radio 1, Radio Cymru ac ar y teledu, trefnydd gwyliau cerddoriaeth, cynhyrchydd ffilmiau a recordiau ... mae'r rhestr yn mynd ymlaen ac ymlaen.

Mae'r Cymro Cymraeg o'r brifddinas, Huw Stephens, wedi hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg a'r iaith Gymraeg ar draws Cymru, Prydain a thu hwnt.

Hoffech chi wybod mwy am y gŵr anhygoel yma? Darllenwch ymlaen...



Clwb Ifor Bach, Heol Womanby, Caerdydd

- Cafodd Huw ei eni ar y 25ain o fis Mai, 1981 yng Nghaerdydd. Aeth e i ysgol gynradd Gymraeg yn y brifddinas ac wedyn i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.
- Roedd tad Huw, Meic Stephens, yn awdur ac yn newyddiadurwr blaenllaw. Dysgodd Meic Gymraeg ar ôl cwrdd â Ruth, mam Huw.
- Mae tair chwaer gyda Huw - Lowri, Heledd a Bregain.
- Priododd Huw gyda'i gariad Sara, yn 2012. Mae un mab gyda nhw o'r enw Cai.
- Cwrddodd Huw a Sara yng nghlwb Cymraeg Caerdydd - Clwb Ifor Bach.
- Ar hyn o bryd, mae Huw a Sara'n byw yn Llundain.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Tad Huw, Meic Stephens, baentiodd y geiriau enwog 'Cofiwch Dryweryn' ar wal hen ffermdy ym mhentref Llanrhystud ger Aberystwyth. Paentiodd e'r slogan i gofio boddi pentref Capel Celyn gan Gyngor Dinas Lerpwl yn 1965.

Mae'r wal wedi cael ei difrodi sawl gwaith yn ddiweddar.

Mewn ymateb i hynny, mae'r geiriau enwog 'Cofiwch Dryweryn' wedi ymddangos ar waliau dros Gymru benbaladr. Dyma rai ohonyn nhw. Oes un yn eich ardal chi tybed?

*Os hoffech chi wybod mwy am foddi pentref Capel Celyn, mae'r hanes yn rhifyn Rhagfyr 2018 o IAW.




Huw yn sefyll o flaen y wal yn Llanrhystud wrth ffilmio rhaglen ddogfen ar gyfer S4C fis Awst eleni

HUW'R CYFLWYNYDD

Dechreuodd diddordeb Huw mewn cyflwyno yn gynnar iawn yn ei fywyd. Pan oedd e yn yr ysgol, cafodd e swydd yn ateb y ffôn yn stiwdios y BBC ar fore Sadwrn. Cafodd e swydd wirfoddol wedyn yn cyflwyno ar radio ysbyty Rookwood, Caerdydd.

Pan oedd e'n 17 oed, ymunodd Huw â Radio 1. Roedd e'n cyflwyno rhaglen o gerddoriaeth Gymraeg a Chymreig ar y cyd gyda Bethan Elfyn.

Yn 2004, daeth cyfle mawr Huw. Roedd y cyflwynydd chwedlonol John Peel yn dost iawn. Roedd rhaid i'r BBC ddod o hyd i rywun i gymryd ei le. Yn debyg i Huw, roedd John yn enwog am chwarae caneuon artistiaid newydd. Felly, cafodd Huw ei ddewis i gyflwyno'r sioe i gadw ysbryd John Peel yn fyw.



John Peel (1967-2004) - un o gyflwynwyr gwreiddiol a mwyaf poblogaidd Radio 1

WEL WEL....er bod John Peel yn Sais, roedd e'n ffan fawr o gerddoriaeth Gymraeg. Gwrandewch ar Huw'n siarad gyda John am gerddoriaeth Gymraeg a'r iaith Gymraeg ychydig cyn iddo fe farw yn 2004.

<https://vimeo.com/310292>

O ganlyniad i'r cyfle mawr yna, aeth gyrfa Huw ar Radio 1 o nerth i nerth. Yn wir, yn 2009, enillodd Huw wobwr papur newydd yr *Independent* am gyflwynydd gorau'r flwyddyn.

Pan symudodd Jo Whiley o Radio 1 i Radio 2



Huw a Bethan yn 1999 - Huw oedd y cyflwynydd ifancaf erioed i gyflwyno ar Radio 1.

yn 2011, cafodd Huw ei ddewis i gyflwyno'r sioe brynhawn ar yr orsaf bob dydd Sadwrn.

Ers hynny, mae Huw wedi cyflwyno'r sioe hwyr a'r sioe fore dydd Llun i ddydd Mercher ar Radio 1.

Ar hyn o bryd, mae Huw'n cyflwyno'r rhaglen 'Introducing' bob dydd Sul ar Radio 1 - rhaglen sy'n hyrwyddo bandiau ac artistiaid newydd. Mae pobl ar draws y byd yn gwrandao ar y sioe yma.

Yn ogystal â'i waith gyda Radio 1, mae Huw yn cyflwyno'r rhaglen nosweithiol *Byd Huw Stephens* ar BBC Radio Cymru bob nos Iau.

Beth am wrando ar raglen Huw ar Radio Cymru? Byddwch chi'n mwynhau'r gerddoriaeth. Byddwch chi'n deall llawer o'r iaith hefyd! Dyma'r linc:

<https://www.bbc.co.uk/programmes/b075tgxp>



Cyflwynwyr Gŵyl Glastonbury, 2019. Mae Huw yn sefyll ar y chwith.

GWYLIAU CERDDORIAETH

Mae Huw wedi gwneud gwaith cyflwyno yn y gwyliau cerddoriaeth mawr i gyd - Reading, Leeds, Glastonbury, Penwythnos Mawr Radio 1 a Gŵyl T in the Park.

Yng Nghymru, mae Huw wedi cyflwyno yng Ngŵyl y Dyn Gwyrdd, Brynbuga, ar lwyfan Maes B yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yng Ngŵyl Tafwyl, Caerdydd.

“Mae'r Gymraeg yn un o'r pethau pwysicaf yn fy mywyd”



Dyma Zabinski - un o'r bandiau ar y label recordio Cymraeg 'AM'

DYDD MIWSIG CYMRU

HUW'N HYRWYDDO BANDIAU NEWYDD

Yn ogystal â'i waith ar y radio, mae Huw yn hyrwyddo bandiau ac artistiaid newydd mewn sawl ffordd arall.

Sefydlodd e'r "Boobytrap Singles Club" a'r label

recordiau Cymraeg 'Am' sy'n rhyddhau senglau gan grwpiau fel Mclusky, The Keys, Zabinski, Mr Huw, Radio Luxembourg a'r Threatmantics.

Mae e hefyd yn rhedeg nosweithiau yn Llundain sy'n rhoi cyfle i fandiau newydd cyffrous.

Cafodd Dydd Miwsig Cymru ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2017 er mwyn hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg. Mae Huw wedi bod yn lysgennad ar gyfer y diwrnod arbennig yma ers y dechrau.

Tybed ydych chi'n dathlu Dydd Miwsig Cymru yn eich ysgol chi? Os na, beth am ofyn i'ch athrawon Cymraeg os gallwch chi gymryd rhan fis Chwefror nesaf? Mae'r holl restrau chwarae ar Spotify.



Ewch i wefan Dydd Miwsig Cymru i gael mwy o wybodaeth.

<https://llyw.cymru/dydd-miwsig-cymru>

Gwrandewch ar Huw yn siarad ar *BBC Breakfast* am Ddydd Miwsig Cymru eleni:

<http://www.workingword.co.uk/projects/cymraeg/>



GŴYL SŴN

Yn 2007, sefydlodd Huw ŵyl gerddoriaeth newydd yng Nghaerdydd, Gŵyl Sŵn, er mwyn hyrwyddo bandiau, troellwyr ac artistiaid newydd o Gymru, Prydain a thramor.

Mae'r ŵyl yn digwydd dros sawl lle yn y ddinas. Dyma lein-yp yr ŵyl fis Hydref eleni.

Os byddwch chi yn ardal Caerdydd fis Hydref nesaf, beth am fynd i'r ŵyl?



ANORAC

Prosiect diweddaraf Huw ydy ffilm fer o'r enw *Anorac* am y sin gerddoriaeth Gymraeg. Gwylwch y ffilm trwy ddilyn y linc yma:



<https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/p07484nd/anorac>

HUW A'R IAITH GYMRAEG

Dyma Huw yn siarad am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn ei fywyd:

“Dw i'n dod o Gaerdydd. Es i i Ysgol Glantaf. Mae pobl yn dal i synnu pan dw i'n dweud fy mod i'n gallu siarad Cymraeg ac yn dod o Gaerdydd. Dw i'n siarad Cymraeg gyda fy nheulu a fy ffrindiau ysgol bob tro.

Pan oeddwn i tua 15 dechreuais i fynd i gigs yng Nghaerdydd, ac yn yr Eisteddfod yn y nos. Dyna le gwelais i fandiau gwych yn canu yn Gymraeg am y tro cyntaf. Wedyn aeth rhai ohonyn nhw, fel Catatonia a'r Super Furry Animals i'r siartiau. Dw i'n teimlo'n lwcus fy mod i'n gallu siarad dwy iaith, achos dw i'n gallu mwynhau cerddoriaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Ces i'r swydd ar Radio 1 achos roedden nhw'n hoffi'r ffaith fy mod i'n gallu siarad y ddwy iaith yn naturiol. Dw i'n dal i gyflwyno yn Gymraeg bob wythnos ar Radio Cymru yn chwarae bandiau newydd.

Mae fy ngwraig a fi'n siarad Cymraeg gyda'n gilydd bob amser. Cwrddon ni yng Nghlwb Ifor Bach. Dw i'n rhoi gigs 'mlaen i fandiau yn Llundain, ac mae llawer o'r bandiau yn canu yn Gymraeg. Dw i'n cwrdd â siaradwyr Cymraeg lle bynnag dw i'n mynd o gwmpas Prydain.

Dw i'n teimlo'n drist pan mae pobl yn meddwl bod eu Cymraeg nhw ddim yn ddigon da. Fy ymateb i bob tro ydy, wrth gwrs ei bod hi. Eich iaith chi yw hi. Mae'n bwysig defnyddio'r iaith bob cyfle gewch chi.

Mae'r Gymraeg yn rhoi cyfleoedd i chi. Mae'n agor drysau ac yn eich gwneud chi'n unigryw. I fi, yr iaith Gymraeg ydy un o'r pethau pwysicaf yn fy mywyd.

Gweithgaredd:
Mae llawer o eirfa swyddi (jobs) yn yr erthygl yma. Matsiwrch yr eirfa gyda'r ystyr Saesneg.

Enw'r swydd	Ystyr
trefnydd	author
swydd gwirfoddol	producer
awdur	ambassador
newyddiadurwr	Voluntary job
cynhyrhydd	organiser
llysgennad	presenter
troellwr/wyr	DJ/s
cyflwynydd	journalist

WEL WEL...

mae Huw wedi bod i'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn ers ei eni. Pan ddaeth yr Eisteddfod i Gaerdydd yn 2018, cafodd Huw ei ddewis fel Llywydd y Dydd.

HUW YN Y PAPURAU AC AR Y TELEDU

Mae Huw wedi ysgrifennu erthyglau i'r *Western Mail*, *Kruger Magazine*, *The Independent*, *The Mirror*, *NME*, a'r *Guardian*.

Ar y teledu, roedd Huw'n cyflwyno sioe gerddoriaeth *Bandit* ar S4C tan fis Medi 2011. Cafodd e ei enwebu dwywaith ar gyfer gwobr cyflwynydd gorau Bafta Cymru am ei waith ar *Bandit*.

Yn 2015, cyflwynodd Huw sioe gerddoriaeth RTÉ *Other Voices* a gwobrau BAFTA Cymru yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd.


OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Huw a'i gefnder Gruff - Prifysgol Bangor, 2015



Ym mis Gorffennaf 2015, derbyniodd Huw Gymrodoriaeth Anrhydeddus gan Brifysgol Bangor am ei wasanaeth i'r byd cerddoriaeth yng Nghymru. Yn derbyn yr anrhydedd ar yr un pryd oedd ei gefnder Gruff Rhys o'r grŵp poblogaidd Y Super Furry Animals.

Gwylwch y clip yma o gyfweiliad gyda Huw a Gruff ar ôl y seremoni:

 https://www.youtube.com/watch?v=uaQrd_EOREs

Geirfa

- | | |
|---|--|
| <p>hyrwyddo - (to) promote
tu hwnt - beyond
blaenllaw - prominent
boddi - (to) drown
difrodi - (to) damage
mewn ymateb i - in response to
ymddangos - (to) appear
Cymru benbaladr - all over Wales
ymuno â - (to) join
ar y cyd - jointly
chwedlonol - legendary
ysbryd - spirit
o ganlyniad i - as a result of
o nerth i nerth - from strength to strength
ers hynny - since then
ar hyn o bryd - at this moment in time
yn ogystal â - as well as
nosweithiol - nightly</p> | <p>Brynbuga - Usk (town)
Llywydd y Dydd - President of the Day
sefydlu - (to) establish
rhyddhau - (to) release
rhestr/au chwarae - playlist/s
enwebu - (to) nominate
ffilm fer - short film
pwysigrwydd - importance
synnu - (to) be amazed
gyda'n gilydd - together (us)
lle bynnag - wherever
ymateb - response
bob cyfle gewch chi - every chance you get
unigryw - unique
derbyn - (to) receive
Cymrodoriaeth Anrhydeddus - Honorary Fellowship
anrhydedd - honour
ar yr un pryd - at the same time</p> |
|---|--|